AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 251 Rhagfyr 2024 - Ionawr 2025

# Gwyliedydd





# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Mae'n fis Rhagfyr ac mae addurniadau Nadolig ym mhob man. Ydych chi'n cofio'r ffasiwn am goed Nadolig artiffisial du, ychydig flynyddoedd yn ôl? Maddeuwch i fi os oedd ganddoch chi un, ond doeddwn i ddim yn gallu eu deall! Du? Pam? Arian, efallai, wrth feddwl am rew ar goeden ar fore oer o aeaf, ond du? Gwahanol, ac yn 'cŵl', efallai, ond doedden nhw ddim at fy nant i, mae gen i ofn. I fi, mae'r Nadolig yn dymor lliwgar oherwydd ei fod yn dymor llawenydd, ac mae lliw yn codi ein calonnau. Efallai fy mod yn hen ffasiwn, ond gwyrdd yw lliw coeden Nadolig, yn fy marn ostyngedig i! Mae meddwl am goeden fytholwyrdd Nadoligaidd yn gwneud i mi feddwl am ychydig o liwiau eraill y Nadolig. Wrth i'r Ŵyl agosáu, beth am eu hystyried nhw, fesul un?

**Pam gwyrdd?**

Gwyrdd i ddechrau, gan fy mod wedi sôn amdano eisoes. Yn ein hemisffer ni, mae'r Nadolig yn digwydd yn ystod tymor y gaeaf, a does dim llawer o wyrddlesni o gwmpas yn y gerddi a'r caeau. Mae rhai eithriadau, wrth gwrs, sef planhigion bytholwyrdd fel celyn, eiddew a choed pinwydd – yr hen goeden Nadolig gyfarwydd. Ar wahân i'r ffaith ein bod ni'n tueddu i hoffi dod â phlanhigion i mewn i'n cartrefi drwy'r flwyddyn, dod â rhan o'r tu allan i'r tu mewn, mae celyn, coeden Nadolig ac ati yn symbolau i ni o gariad Duw sydd byth yn gwywo, edwino na phylu. Efo'i ffresni, mae'n arwydd o fywyd newydd sy'n bosib i ni oherwydd genedigaeth Iesu.

Mae gwyrdd yn lliw sylfaenol i Nadolig llawer ohonom ni, yn ein hatgoffa ni nid yn unig am bethau sydd yn parhau am byth, ond hefyd am ein galwad i ofalu am greadigaeth Duw.

**Pam coch?**

Lliw sydd yn aml yn mynd efo gwyrdd yw coch. Mae pawb yn gyfarwydd â gwisg goch Siôn Corn! Yn ôl rhai, mae'n gwisgo coch oherwydd ei le mewn hysbyseb Coca Cola, yn ôl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. (Coch yw lliw tuniau Coke, wrth gwrs.) Yn ôl eraill, mae'n gwisgo coch fel mantell esgob, am mai Sant Nikolaos, esgob Myra yn ôl yn y bedwaredd ganrif, oedd y Santa Clôs gwreiddiol. Beth bynnag, mae coch yn lliw cynnes, llon, cysurus. Mae aeron celyn yn goch, eu lliw yn mynd gyda gwyrdd y dail mewn ffordd hyfryd. Os yw'r gwyrdd yn symbol o enedigaeth Iesu, mae'r coch yn ein hatgoffa ni am ei farwolaeth a'i waed a dywalltwyd drosom ni – eto, yn arwydd o fywyd newydd, diolch i Dduw.

Tra mae gwaed yn parhau i gael ei golli mewn rhyfeloedd yn y byd, cawn ein galw i weddïo ac i weithio dros heddwch.

**Lliw brenhinol**

Rydyn ni'n hoffi lliw aur, yr adeg yma, hefyd. Mae'n lliw moethus, ac rydyn ni i gyd yn gobeithio am dipyn bach o foethusrwydd dros y Nadolig. I fi, moethusrwydd yw bod yn glyd ac yn gynnes, a'r goleuadau'n tywynnu mewn ffordd gysurus, efo digon i'w fwyta ac i'w yfed, ac amser tawel efo fy anwyliaid. Wrth gwrs, mae aur yn ein hatgoffa ni am un o anrhegion y Doethion i'r Iesu ifanc, sef rhodd y metel aur. Mae aur yn werthfawr ac yn ddrud. Anrheg od i faban oedd wedi'i eni i rieni cyffredin, tlawd, efallai, ond mae'n symbol o'i frenhiniaeth a'i awdurdod.

Rydyn ni'n anrhydeddu brenhiniaeth Iesu pan fyddwn yn gweithio a gweddïo dros gyfiawnder yn ei fyd, a rhan deg o gyfoeth y byd i bawb.

**Lliw disglair**

Ac yn olaf, mae llawer o bethau lliw arian hefyd i'w gweld yn ystod y tymor hwn, efo tinsel yn addurno'n cartrefi, cardiau Nadolig sy'n sgleinio weithiau ac anrhegion wedi'u lapio mewn papur metelig sy'n dal y golau. O beth rwyf wedi'i weld, bydd dillad parti merched y Nadolig hwn yn cynnwys llawer o secwinau sgleiniog, ac yn arbennig rhai arian. Cofiwch, dwi ddim yn gweld fy hun yn gwisgo owtffit o'r fath! Mae'n debyg bod arian yn lliw poblogaidd adeg y Nadolig nid yn unig oherwydd ei fod yn ein hatgoffa ni o fflachiadau rhai o nodweddion y tywydd tymhorol, sef eira, iâ a rhew, ond hefyd oherwydd ei fod yn disgleirio fel seren, gan ein hatgoffa o'r seren sy'n rhan mor allweddol o stori'r geni.

Wrth i ni ystyried pwrpas y seren, sef arwain y Doethion at Iesu, mae'n werth i ni ystyried sut rydyn ni'n cyfeirio pobl eraill at Iesu a'i gariad, ei lawenydd a'i dangnefedd, yn ein bywydau heddiw. Ydy hi'n bosib i ni ddisgleirio efo golau Crist, fel seren arian i eraill y Nadolig hwn?

Gwyrdd, coch, aur, arian – rhai yn unig o liwiau'r Nadolig. Mae yna lawer mwy. Os hoffech chi glywed cân sy'n dathlu'r lliwiau, ga'i awgrymu eich bod yn chwilio ar y We am "The Colours of Christmas" gan John Rutter? A boed iddi fod yn fendith i chi, y Nadolig hwn.




# *Gwyliedydd*

**CYFNODOLYN CYMRAEG**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 251**
**RHAGFYR 2024 – IONAWR 2025**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

(NID "i'r Gwyliedydd" os gwelwch yn dda)

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
6 IONAWR 2025





Llun y clawr: **Ffotograffau Tunedin**


Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


## Diolch



**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.**

| | |
|---|---|
| Capel Salem, Pentre Helygain | £30-00 |
| Mrs Margaret Griffith, Y Drenewydd er cof am ei phriod | £25-00 |
| Mrs Elan Griffith, Casnewydd | £40-00 |
| Vera, Dewi, Huw a Gwyn, Llanelwy er cof am Austin Savage, un o ddarllenwyr brwd y *Gwyliedydd* | £100-00 |
| **Cyfanswm** | **£195-00** |

## Paratoi at y Nadolig



Mae ymgyrch Nadolig yr Eglwys Fethodistaidd eleni yn ein hannog i wahodd pawb i fwynhau egwyl "i wrando ar y gân o gariad y mae'r angylion yn ei chanu, eleni a phob blwyddyn. Fe'i canwyd am y tro cyntaf dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl, am hanner nos. A dim ond aros i ninnau ymuno â'r gân y maen nhw."

Dyfyniad yw'r uchod o'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael ar brif wefan yr Eglwys Fethodistaidd: ewch i https://www.methodist.org.uk/search/?query=advent i weld yr adnoddau a'r cymorth sydd yno wrth inni baratoi i ddathlu'r Ŵyl – a beth am lawrlwytho poster neu ddefnyddio tudalen gefn y Gwyliedydd i wahodd pawb i'ch gwasanaethau?

O! D'wysog hedd, adwaenost Ti
  Boen, a thrueni'r llawr;
A gwyddost am ein gofid ni,
  A'n blinder lawer awr:
Gwasgara ofnau'r
  byd a'r bedd,
  Sy'n cau ein llwybrau'n lân;
A dyro i'r lluddedig hedd
  I wrando'r nefol gân.



# Codi pontydd a chwalu ffiniau

gan y **Parchedig Huw John Hughes**



Bob dydd ers dros bum mlynedd a deugain bellach, byddaf yn edrych drwy ffenestr fy nhŷ a gweld pont enwog, sef Pont y Borth. Beth fuasem ni'n ei wneud heb bontydd? Mae codi pontydd yn arwain at brofiadau a chyfleoedd newydd a hwyluso'n teithiau. Mae codi pontydd yn golygu chwalu ffiniau a therfynau. Yn wir, dyna sydd wedi bod ynghlwm wrth gynllun Duw erioed. Gwir ystyr cenhadu ydi croesi ffiniau yn ysbryd cariad Duw.

Tybed a oes rhaid croesi terfynau? A ddylem fod fel y bugail a groesodd bob ffin a therfyn er mwyn cael hyd i'r ddafad golledig? Wrth reswm, mae drws yr eglwys neu'r capel yn agored led y pen i bawb! Credaf mai angen mawr ein heglwysi heddiw ydi eneidiau aflonydd sy'n barod i godi a chroesi pontydd a chanfod gorwelion newydd. Ysywaeth, gosod terfynau ydi'r norm bellach. Wrth fynd o gwmpas i arwain gwasanaethau, clywais droeon y dywediad "mi fydd drws y capel 'ma'n agored tra bydda i." A dyna'r terfyn!

**Cariad diderfyn**

Mae Duw yn achub y blaen a datguddio ei gariad diderfyn. Ar ddechrau stori'r Beibl, cawn Abram yn gadael Ur y Caldeaid ac yn setlo yn Haran, cyn i Dduw alw arno ef a'i deulu unwaith yn rhagor i fynd ar daith a fyddai o fendith i'r byd cyfan.

Mae'r Gair yn sôn am Dduw y cyfanfyd. Dyna oedd neges greiddiol Iesu. Yn ôl efengyl Mathew, "Ewch i'r holl fyd." Gweledigaeth fyd-eang oedd y nod. Codi pontydd, chwalu cloddiau, dymchwel ffiniau.

**Iesu'n chwalu ffiniau**

Gwelwn Iesu ei hun yn anwybyddu confensiynau a chwalu ffiniau. Pan gyfarfu â gwraig o Samaria (Ioan 4: 1 – 26), mae'n gofyn cymwynas ganddi. "Rho i mi beth i'w yfed," meddai. Iesu sy'n cymryd y cam cyntaf, ef sy'n achub y blaen.

Mae'r rhagfuriau'n mynd yn deilchion.

Ydi hi'n hen bryd i ninnau ddilyn yr egwyddor hon y dyddiau hyn? A allwn gael gwared â hen ragfarnau fel y bydd modd mynd ymlaen i ryddhau a rhannu newyddion da?

**Iesu'n codi pont**

Mi ydw i wedi meddwl llawer am y dyn hwnnw ymhlith y beddau yn Gerasa (Luc 8: 26 – 31; 38 – 39) oedd ym meddiant cythreuliaid. Mae Iesu wrth ei iachàu yn gofyn iddo beth yw ei enw. Mae'n creu cyswllt personol.

Bellach yn ei iawn bwyll, dymuna'r dyn gael ymuno efo Iesu. Ond caiff ei wrthod: pam felly, tybed? Yn un peth, rwy'n meddwl, oherwydd y gwyddai Iesu y byddai'r dyn, ar ôl ei brofiad trawmatig, yn gwella fwyfwy yn ei gynefin, efo'i bobl ei hun. Faint ohonom ni sydd wedi cael cyfnod mewn ysbyty ac yn ysu am gael mynd adref. Mi fydda i'n gwella ar fy nghanfed os cai fynd adref at fy nheulu a'm ffrindiau.

Yn ogystal, rhaid cofio na fyddai neb y tu allan i'w fro ei hun yn ei gofio fel y dyn a fu ymhlith y beddau. Yng Ngalilea fyddai neb yn ei adnabod, ond yma yn y Decapolis bydd pawb yn ei gofio. Mae Iesu wedi codi pont rhyngddo ef ei hun a phentrefwyr yr ardal baganaidd hon. A'r gŵr hwn ydi'r bont honno. Gartref yn ei gynefin ei hun roedd cenhadaeth hwn i ddechrau, a'r gorchymyn a roddodd Iesu iddo oedd, "adrodd gymaint y mae Duw wedi'i wneud drosot." Dechrau gyda'i brofiad personol. Dyma ei genhadaeth.

Mae efengyl Iesu yn cofleidio'r byd i gyd ac mae'n gallu defnyddio unigolyn a fu'n yn destun gwawd ac anfri i gyrraedd y nod.

**Mi fedrwn ninnau wneud gwahaniaeth**

Gall Duw ein defnyddio ninnau hefyd, hyd yn oed yn ein hamgylchiadau presennol fel capeli. Fel y gwyddom, mae'r blaned gyfan yn wynebu argyfwng newid yn yr hinsawdd. Beth am i eglwys Iesu Grist fod ar flaen y gad yn ein hymgyrchoedd a'n hymdrechion? Dyma gyfle i ni groesi ffiniau enwadaeth a bwrw iddi yn ein hardaloedd gan wahodd y rhai sydd ddim â chysylltiadau crefyddol i ymuno efo ni. Dyma gyfle i wahodd ieuenctid a'r plant i ymuno. Gweithredwn cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Gyda'n gilydd, dinistriwn y ffiniau a chodwn y pontydd ac mi fedrwn ni wneud gwahaniaeth.



# Dysgu Cymraeg

gan **Angharad Tomos**



**Faint ohonoch** sydd yn hoffi mynd i **oriel luniau**? **Byddaf wrth fy modd** yn mynd.

Mae **sawl** oriel dda i'w chael yng Ngogledd Cymru – Oriel Glyn y Weddw yn Llanbedrog, Oriel Ffin y Parc yn Llandudno ac Oriel Môn yn Llangefni. **Rydym yn ffodus** i gael y rhain.

Mae gwahanol artistiaid yn **arddangos** eu gwaith. Dydw i ddim yn hoffi gwaith pob un wrth gwrs, ond mae **rhywbeth gwych** ym mhob arddangosfa.

Fel **adduned** am y flwyddyn 2025, **os nad ydych yn mynd** i orielau, rhowch gynnig ar un. **Dim ots** beth yw thema yr arddangosfa, **ewch draw i gael golwg**. Efallai eich bod yn dweud 'Dydw i ddim yn berson artistig'. Dim ots, ewch beth bynnag. **Dwi'n sicr y dowch oddi yno** yn teimlo yn well.

Mae gan bob artist ei **arddull arbennig** ei hun. Yn aml, maent yn gweithio drwy **gyfrwng gwahanol**. Rydych yn gweld un llun fel ffotograff, ac yna yn **canfod mai wedi ei beintio y mae**. Yna, rydych yn sylwi mai gyda ffelt y mae'r llun lliwgar yna wedi ei wneud. Mae pob artist yn **wreiddiol** ac yn **cynnig ei (g)weledigaeth ei hun.**

**Falle mai dyna ydw i yn ei hoffi fwyaf** am orielau. Mewn hanner awr, gallwch weld y byd drwy lygad pedwar neu bump artist gwahanol. **Byrdwn** mawr y byd ydi **ein cael ni i gyd i feddwl yr un fath**, i wrando ar yr un miwsig, bwyta yr un bwyd a siarad yr un iaith. Mae Duw wedi ein gwneud ni i gyd yn wahanol, ac mae rhywbeth **gorfoleddus** am hyn.

Y tro nesaf y mae gennych awr neu ddwy yn rhydd, **ewch i oriel**, a gweld y byd drwy sbectol wahanol.

**Faint ohonoch** – how many of you?
**oriel luniau** – art gallery
**Byddaf wrth fy modd** – I love
**sawl** – several
**Rydym yn ffodus** – We are lucky
**arddangos** – exhibit
**rhywbeth gwych** – something great
**adduned** – resolution
**os nad ydych yn mynd** – if you don't go
**Dim ots** – it doesn't matter
**ewch draw i gael golwg** – go there to have a look
**Dwi'n sicr y dowch oddi yno** – I'm sure you'll come from there
**arddull arbennig** – special style
**g(c)yfrwng gwahanol** – different medium
**canfod mai wedi ei beintio y mae –** find that it has been painted
**(g)wreiddiol** – original
**cynnig ei weledigaeth ei hun** – offers his own vision
**cynnig ei gweledigaeth ei hun** – offers her own vision
**Falle mai dyna ydw i yn ei hoffi fwyaf** – Maybe that's what I like most
**Byrdwn** – refrain
**ein cael ni gyd i feddwl yr un fath** – to get us all to think alike
**gorfoleddus** – joyful
**ewch i oriel** – go to a gallery

## Baner Hardd

Dyma faner hardd **sydd i'w gweld** yng nghapel St. David's, Craig y Don, Cylchdaith Conwy a Phrestatyn. Mae'r capel wedi **dathlu canmlwyddiant**.

Cafodd y sgwariau **eu creu gan** dros 20 o aelodau'r capel ac yna dyma nhw'n eu **gwnïo at ei gilydd**. Mae'r faner yn fawr ac mae'n dangos gwaith a thystiolaeth y capel **dros y 100 mlynedd diwethaf**. Mae'n **ffordd i gofio** hefyd am holl waith y rhai **aeth o'n blaenau**.

Llongyfarchiadau i St. David's ar y canmlwyddiant a gobeithio y bydd llawer iawn o bobl yn mwynhau gweld y faner **wrth ddod i mewn i'r capel** yn y **blynyddoedd i ddod**.

**sydd i'w gweld** – which is to be seen
**dathlu canmlwyddiant** – celebrated its centenary
**eu creu gan** – created by
**gwnïo at ei gilydd** – sewn together
**dros y 100 mlynedd diwethaf** – over the last 100 years
**ffordd i gofio** – way of remembering
**aeth o'n blaenau** – went before us
**wrth ddod i mewn i'r capel** – on coming in to the chapel
**y blynyddoedd i ddod** – years to come



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Ardal Bathafarn

**ER COF ANNWYL**
Tristwch mawr oedd colli Mrs Olwen Griffiths, a fu mor ffyddlon ac yn ffrind arbennig i lawer trwy gydol ei hoes faith. Roedd bob amser yn ddoeth ei chynghorion a bu'n gefn aruthrol i ni ym Mathafarn gyda phob penderfyniad ac ar bob achlysur. Cofiwn hi fel gwraig garedig iawn, gyda mwynder Maldwyn yn amlwg yn ei chymeriad annwyl. Wrth gofio amdani gyda'n gilydd mewn gwasanaeth coffa yn Llys Awelon o dan ofal Elizabeth, darllenwyd y disgrifiad o'r wraig fedrus o Lyfr y Diarhebion. Yna cydganu 'Mor fawr wyt Ti' – Olwen oedd y cyntaf i ganu'r emyn yma fel unawd wedi i'w phriod y Parchedig E.H. Griffiths gyfieithu'r geiriau i'r Gymraeg. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf at Aled, Alwyn, Rona a Gwenan a'u teuluoedd yn eu colled.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant hefyd â Marian a Gwyn, Corwen, ac â Rob ac Edwina, Bathafarn, ar golli brawd a brawd yng nghyfraith annwyl.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Iolo Evans, sydd wedi derbyn triniaeth i'w lygad, ac at bawb sydd yn methu dod i'r oedfaon oherwydd anhwylderau iechyd.

**OEDFAON**
Diolch i Llinos Mary Jones am ddod atom i arwain oedfa yn Llys Awelon ym mis Hydref. Cynhaliwyd oedfa undebol ddwyieithog tref Rhuthun, sef Wythnos Un Byd, o dan ofal Bathafarn yng nghapel Heol y Parc. Braf oedd gweld cynulliad da wedi dod ynghyd. Diolch i Rhian am gyfeilio ac i Rhodri am groesawu pawb. Diolch i Hazel a chyfeillion y capel am eu croeso. Y cennad oedd y Parchedig Dilys Jones, Amwythig, a chafwyd neges arbennig iawn ganddi. Casglwyd £90 tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Salem, Rhyd y Foel

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Iola Roberts, Plas Onn, yn ei phrofedigaeth o golli'i brawd sef Alun Roberts, Fferm Peulwys, Hen Golwyn. Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r ddiweddar Olwen Griffiths, gweddw'r diweddar Barchedig E.H. Griffiths, yn eu colled.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Esther Roberts a'i chyd-arddwyr ar dderbyn tystysgrif "Cymru mewn Blodau" am eu gwaith dygn a diflino yn datblygu a gofalu am ardd yn Ysbyty Glan Clwyd, sydd yn rhoi pleser a boddhad i lawer o gleifion ac ymwelwyr.

**DIOLCHGARWCH**
Ar ddydd Sul 13 Hydref ymunodd aelodau Salem â chapel Hyfrydle, Betws yn Rhos yn eu gŵyl ddiolchgarwch o dan ofal y Parchedig Ifor Jones. Yna y Sul wedyn daethant hwythau atom i Salem i'n gwasanaeth diolchgarwch o dan ofal Catherine a'r mamau a'r plant. Y thema eleni oedd "Gwerthfawrogi" a da oedd clywed pawb yn mynegi mor ystyriol beth oeddynt yn ei werthfawrogi o ddydd i ddydd. Yn dilyn y ddwy oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu yn y festri dros baned.







**PRIODAS AUR**
Llongyfarchiadau i Glenys a Mike Thomas ar ddathlu eu priodas aur. Priodwyd hwy yn Salem ar 28 Medi 1974. Mae Glenys, ynghyd â Bethan ei merch a Matthew a Mali yr wyrion yn ffyddlon iawn i'r achos yn Salem ac yn teithio yr holl ffordd o Fynydd y Fflint i'r gwasanaethau. Mae hanes y teulu yn mynd yn ôl blynyddoedd lawer i'r adeg y dechreuwyd yr achos Wesleaidd yma.

**YR YSGOL SUL**
Braf iawn oedd gweld aelodau'r ysgol Sul yn awyddus i ailddechrau wedi ysbaid dros Wyliau'r Haf. Diolchwn i Anna am eu harwain ac edrychwn ymlaen at eu cyfraniad yn y gwasanaethau arbennig yn y misoedd nesaf.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Ebeneser, Treuddyn

**PRYNHAWN PANED A CHACEN**
Hoffem ddiolch i'r rhai a gefnogodd Brynhawn Paned a Chacen llwyddiannus yn Hafan Deg ar 12 Hydref. Braf oedd gweld ffrindiau hen a newydd.

**RHAGLEN ATGYWEIRIO'R CAPEL**
Ar hyn o bryd mae'r capel yn mynd trwy raglen o atgyweirio. Rydym yn ailosod rhan o'r llawr ac yn atgyweirio wal, a gosodwyd system gwresogi newydd. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith wedi'i gwblhau yn fuan; yn y cyfamser cynhelir y gwasanaethau yn yr ysgoldy.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Maldwyn Roberts, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Da yw deall ei fod hefyd yn gwella'n ara' deg.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

*Mae aelodau a ffrindiau capel Ebeneser yn dymuno'n dda i Glenys wrth iddi deithio ar draws y byd i Awstralia i ymweld â'i brawd a'i deulu. Pob bendith ar eich taith, Glenys, ac edrychwn ymlaen at glywed yr hanes.* Maldwyn Roberts

**GWASANAETH NADOLIG**
Cynhelir ein Gwasanaeth Carolau dwyieithog eleni ar yr 22ain o Ragfyr am 2.30yp dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Unwaith eto bydd plant Clwb Capel Ebeneser yn cymryd rhan. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn dilyn y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

## Bethel, Rhiwbeina

**DATHLU PEN-BLWYDD**
Ymunwyd i ddymuno pen-blwydd hapus i Gwenda Francis, ein hysgrifennydd pan ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Cawsom baned a chacen yn y festri ar ôl ein gwasanaeth a chyflwynwyd anrheg iddi gan ein trysorydd, Wyn Jones, sef englyn o waith Aled Gwyn.

Gwenda
Diymhongar, hawddgar yw, - un dawel
A diwyd, ddiledryw;
Yn ei heglwys, nid hyglyw
Yw hi byth, mae'n arian byw





**CROESO**
Mae sawl aelod newydd wedi ymuno â ni yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar 22 Hydref cawsom gyfle i roi croeso ffurfiol i Mr Hefin Jones, gynt o Aberystwyth. Yn ein cyfarfod blynyddol ar 16 Hydref, da oedd deall bod nifer ein haelodau wedi cynyddu tipyn ers y cyfarfod diwethaf.

**CYMUN BENDIGAID A BEDYDD**
Mewn gwasanaeth Cymun yng ngofal ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, bedyddiwyd Lili Alys Martha, merch fach Bethan a Mathew Preece a chwaer fach i Megan. Cafwyd pregeth arbennig gan ein gweinidog yn seiliedig ar yr enw Lili a'r cysylltiadau Beiblaidd. Dymunwn bob bendith i'r teulu.

**PARATOI AT Y NADOLIG**
Mae côr y capel yn brysur yn ymarfer ar gyfer gwasanaeth Nadolig yr aelodau a gynhelir ar 15 Rhagfyr. Diolch i Gwilym Roberts am drefnu ac arwain. Bydd y côr hefyd yn canu yn y gwasanaeth Plygain a gynhelir yn y capel ar 16 Rhagfyr, dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

**YR YSGOL SUL**
Ar 22 Hydref daeth plant ac oedolion ynghyd ar gyfer ailddechrau'r Ysgol Sul. Cynhelir y sesiynau nesaf ar 10 Tachwedd, 8 Rhagfyr a 22 Rhagfyr pan fydd gwasanaeth Nadolig y plant a pharti i ddilyn. Gobeithio y cawn ymweliad gan Siôn Corn. Diolch i Lois ac Elliw am eu help.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad buan i Ann Stephenson a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da iawn yw cael Mair Owen yn ôl gyda ni, yn well ar ôl llawdriniaeth. Anfonwn ein cofion at Llinos Howells sydd ar hyn o bryd yn gweithio'n galed yn dysgu'r plant yn Ysgol Gymraeg y Gaiman.

Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 ar fore Sul ac mae'n cydredeg ag oedfa'r bore. Mae croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau a'r Ysgol Sul ac felly hefyd i'r Plygain sy'n dechrau am 7 yr hwyr ar 16 Rhagfyr.

## Tabernacl, Llanfyllin

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
Eleni cynhaliwyd y gwasanaeth undebol yng nghapel Pendref, gyda'r Parchedig Peter Williams, Carno, yn gwasanaethu.

**SUL Y BEIBL**
Braf oedd cydaddoli yn Eglwys Sant Myllin ar Sul y Beibl eleni, dan arweiniad y Parchedig Hermione Morris a chyda chyfraniadau gan Glyn Evans, Alwena Francis a Val Turner.

**PRIODAS**
Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Wes a Nesta Merrill ar eu priodas yng nghapel y Tabernacl, gyda Darren Mayor, tad y briodferch, yn gweinyddu. Pob bendith ar y cwpwl hapus.

**CYDYMDEIMLO**
Trist iawn oedd colli un o'n haelodau, sef Mrs Hilda Evans, yn ddiweddar. Roedd hi yn berson poblogaidd a hoffus yn y dref. Cydymdeimlwn â'r meibion, Wyn a Gareth a'u teuluoedd yn eu colled.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at ddwy o'n haelodau sef Mrs Enid Morris a Mrs Linda Davies, sydd wedi colli eu chwaer, Gaynor, yn ddiweddar.

**DYMUNIADAU GORAU**
Drwg oedd gennym glywed bod Mrs Decia Blacker wedi cwympo a thorri ei chlun yn ddiweddar. Cofiwn ati yn gynnes iawn. Dymunwn Nadolig Llawen i bawb o ddarllenwyr y *Gwyliedydd*.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

# 3Generate

Bob blwyddyn bydd pobl ifanc o Gymru yn ymuno yn nigwyddiad ieuenctid mawr yr Eglwys Fethodistaidd sef 3Generate. Eleni (trwy garedigrwydd cyfeillion Shiloh Tregarth) aeth Delyth, ein Swyddog Dysgu, â baner Gymraeg yno i addurno cornel y plant lleiaf. Dywed Delyth iddi gwrdd â llawer o bobl ifanc o Gymru, rhai ohonynt, fel Alexis, yn siarad Cymraeg.



## MYND I 3GENERATE

GAN ALEXIS O GYLCHDAITH WRECSAM

Helo, fy enw i yw Alexis, rydw i'n 15 mlwydd oed ac rydw i am siarad efo chi am fy mhrofiad yn 3Generate. I gychwyn efo, mi wnes i gael andros o amser da – dyma'r tro cynta i mi fynd ac roedd o'n well a llawer mwy na beth oedd i'n disgwyl! Roedd yna amrywiaeth o weithgareddau i bawb yno! O bethau fel wal ddringo anferth, i astudiaeth Feiblaidd neu greu smwddi eich hun trwy bweru'r blender gyda beic. Pan gyrhaeddais i a fy mrawd, Alun, roedd cymaint o bethau yno fel ein bod ni ddim yn gwybod lle i ddechrau.

Doedd y daith yno ddim yn un hir oherwydd o Langollen roedden ni'n dod a wnaeth o gymryd dipyn bach dros 2 awr i gyrraedd Birmingham. Ar y ffordd yna roeddwn i'n pryderu am sut oedd y bwyd yn mynd i fod, lle rydw i'n mynd i gysgu, ydw i'n mynd i wneud ffrindiau a sut mae'r cawodau a toiledau fel? Yn y diwedd roedd popeth yn iawn ac wnes i arfer gyda sut roedd popeth yn gweithio yn reit hawdd. Er ei bod yn hwyr erbyn i ni gyrraedd roedden ni eisiau archwilio a gweld popeth, ymdrechon ni i gymryd popeth i fewn a trio cael yn gyfarwydd â'n hamgylchedd newydd. Aeth Alun a fi i chwarae pêl-droed yn y 'muga' bach wnaeth cael ei chreu, roedd pobl o bob oed yna a wnaethon ni gwrdd â pobl newydd. Roedd hi'n anhygoel gweld cymaint o bobl ifanc yn amrywio mewn hil, rhyw ac oed yn dod i gilydd i addoli Duw. Rydw i yn Gymraes ddu sydd hefyd yn Fethodist ac rydw i heb gwrdd â pobl du yr un oed â fi sydd hefyd yn Fethodistiaid fel fi ac roedd o'n rhywbeth mor gyffrous i weld! Roeddwn i ac Alun yn hapus iawn i greu ffrindiau o'r grŵp o Gaerdydd – er eu bod nhw ddim yn siarad Cymraeg roedd hi'n dda i gael pobl Gymreig i wersylla gyda, roedden ni fel cymuned bach yn edrych allan am ein gilydd dros y penwythnos. Wnaeth Alun a fi wneud ffrindiau gyda pobl o gylchdaith Caerdydd ac aros gyda nhw am y penwythnos!

Ar y dydd Sadwrn wnes i godi yn andros o gynnar ar ddamwain, codais am 5:40 y.b!! Wnes i ffeindio fo'n anodd mynd nôl i gysgu oherwydd doedd fy ngwely am y penwythnos ddim yn gyfforddus iawn i fod yn onest. Oherwydd mod i wedi codi yn barod penderfynais fynd am gawod am 6 o'r gloch, rhywsut roeddwn i'n lwcus iawn i allu osgoi unrhyw giwiau am y gawod ac roedd cael yn barod am y dydd yn weddol hawdd. Yr unig ran brysur oedd y toiledau merched, yn llawn o bawb yn trio sortio eu gwallt a'u colur yn y drych. I frecwast mi wnes i gael brecwast Saesnig blasus ac roedd yna opsiynau i bobl gyda deiet wahanol a heb glwten. Roedd yr ardal bwyta yn brysur iawn ac roedd pob ciw yn reit hir ond doedd yna ddim prinder o fwyd ar unrhyw bwynt, yn ffodus! Trwy'r dydd roeddwn i'n crwydro pob ardal a gweld beth oedd gyda nhw i'w gynnig. Fy hoff ardaloedd oedd y 'Tech Hub', 'The Rec', ac y 'Discovery'. Wnes i fwynhau fy amser fwyaf yn yr ardaloedd hyn. Ar y dydd Sadwrn cymerais ran yn y gystadleuaeth Just Dance yn y 'Tech Hub', roedd yn andros a hwyl ac roeddwn yn 2ail ar y 'leaderboard' ar un adeg. Yn y 'Rec' dringais y wal ddringo a chwaraeais bêl-droed a pêl-fasged hefyd! Yn yr ardal 'Discovery' dysgais lawer, ar y nos Sadwrn mi es i a ffrind arall i drafodaeth am pam rydym yn gwneud y Cymun a dysgais lawer yno ac roedd o'n cŵl i allu gwybod mwy am gefndir ac arwyddocâd yr hyn dwi'n gwneud yn yr eglwys. Ar fore dydd Sul aeth grŵp ohonon ni i wasanaeth byr wnaeth gael ei gynnal yn y 'Discovery' ac roedd o'n dda i weld llawer o bobl ifanc yno yn trafod a mynegi eu ffydd! Rhwng pob peth mi wnes i fwynhau fy amser yno ac alla i ac Alun ddim aros am y siawns i fynd eto blwyddyn nesaf! Dwi hefyd eisiau diolch i Delyth am roi y cyfle yma i fi i ysgrifennu yr erthygl yma am fy mhrofiad!! Roeddwn i wedi synnu i ddod ar draws rhywun arall sy'n siarad Cymraeg heblaw fy mrawd yn 3Generate.













# Ar gyfer y plant



## Geni Iesu Grist

Un tro, dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad. Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yn Galilea, a mynd i gofrestru yn Jwdea – yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd.

Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi. Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid.

Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.

**Luc 2: 1-7 beibl.net**







LLUNIAU FREE BIBLE IMAGES

## Lliwio'r llun



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Maelog, Pencarnisiog, Môn*

**DIOLCHGARWCH Y PLANT**
Braf ydyw cofnodi fod plant Ysgol Pencarnisiog wedi cynnal eu gwasanaeth diolchgarwch yng nghapel Maelog ddiwedd Hydref. Cafwyd oedfa fendithiol iawn gyda holl blant yr ysgol yn cymryd rhan yn eu tro ac i gyd yn gwybod eu gwaith yn llon. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddi ac am ddewis dod i'r capel ar gyfer yr achlysur. Casglwyd rhoddion at fanc bwyd Ynys Môn.

**DYMUNIADAU GORAU A DIOLCH**
Da yw cael dweud fod Mr Glyn Hughes wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ar ôl cyfnod o salwch ac yn gwella'n araf. Bu iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 96 oed yn ddiweddar ac mae'n un o ffyddloniaid y gwasanaethau.

Diolch i'r holl weinidogion a phregethwyr lleyg sydd yn ein cefnogi ni yma i gynnal gwasanaethau cyson.
**GOHEBYDD .** MARGARET ROBERTS

### *Seion, Llanrhaeadr ym Mochnant*

**DIOLCHGARWCH**
Daeth cynulleidfa dda ynghyd i ddathlu Gŵyl y Diolchgarwch yn Seion ac addurnwyd y capel yn hardd ar gyfer yr ŵyl. Pum mlynedd union i'r diwrnod ers iddo fod yno o'r blaen i bregethu ar y Diolchgarwch, arweiniwyd yr oedfa gan y Parchedig Euron Hughes.
**GOHEBYDD .** EURON HUGHES





### *Pendref, Dinbych*

**OEDFAON**
Diolch i'n gweinidog y Parchedig Marc Morgan, yr Hybarch Bernard Thomas, Royce Warner, Enid Davies, Elizabeth Jones a Maryl Rees am arwain oedfaon ac i aelodau'r capel hefyd am gymryd rhan mewn cyfarfodydd gweddi. Blaenoriaid Medi a Hydref oedd Heulwen Ellis ac Elfed Evans. Diolch i'r cyfeilyddion, Vera Savage a Beti Roberts, ac i Gwyn Williams am arwain y canu. Yn unol â'r traddodiad, ar y dydd Iau cyntaf ym mis Hydref cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch undebol capeli tref Dinbych, y tro hwn yn y Capel Mawr.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Ar 28 Hydref cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr eglwys dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan, gyda nifer dda o'r aelodau yn bresennol. Cafwyd cyfarfod ystyrlon, effeithiol a hwyliog. Diolchwyd i'r holl aelodau am eu cyfraniadau ariannol hael yn ystod y flwyddyn ac i'r swyddogion am eu gwaith. Fe'u hail-etholwyd i gyd am flwyddyn arall.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymuniadau gorau i Heulwen Ellis am wellhad buan a chofion annwyl at ein holl aelodau sydd am wahanol resymau yn methu bod gyda ni.

**CINIO BLYNYDDOL PENDREF**
Cynhelir ein cinio blynyddol yn y Cherry Pie, Melin y Wern, amser cinio dydd Sadwrn Tachwedd 30ain.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

**CYMANFA GAROLAU**
Dydd Sul Rhagfyr 22ain byddwn yn cynnal Cymanfa Garolau am 2.30 y prynhawn dan ofal Vera Savage ynghyd â Chôr Merched Caerwys a Chôr Meibion Dinbych. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni.



**PRIODAS AUR**
Llongyfarchiadau i Mary a Medwyn Jones ar ddathlu eu priodas aur. Priodwyd hwy yng nghapel Seion, Pwllheli ar 19 Hydref 1974, y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Enoc Davies gyda'r Parchedig Cledwyn Parry yn cynorthwyo. Dyma'r briodas olaf, mae'n debyg, yng nghapel Seion cyn dymchwel yr adeilad.



### *Shiloh, Tregarth*

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Helen Wyn yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn Bedford. Roedd Mair Eluned Williams yn enedigol o Dalybont, Bangor, ac yn 96 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad gyda'i merch a'r holl deulu yn eu hiraeth.

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau i'r teulu oll ar enedigaeth merch fach, Annest Lloer, i Elinor a Siôn Glyn. Mae'n chwaer fach i Mali Non a Nanw Branwen ac yn wyres i Gwenda Davies.

**DRWS AGORED**
Mae boreau Gwener yn Shiloh yn brysur a llawn bwrlwm. Mor braf ydi cael croesawu trigolion yr ardal i'r festri i fwynhau cwmni, paned, cynhesrwydd a sgwrs. Cofiwch alw i mewn – croeso cynnes i bawb.

**CASGLU ANRHEGION**
Eto eleni, mae'r aelodau wedi cyfrannu'n hael iawn at apêl Nadolig Gweithredu dros Blant. Diolch i bawb am y teganau a'r rhoddion ariannol, ac i'r Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan am eu holl waith yn trefnu i'w casglu. Pob dymuniad da i Margaret am wellhad llwyr a buan yn dilyn llawdriniaeth. Rydym hefyd yn parhau i gasglu bwydydd ac offer ymolchi o wythnos i wythnos ar gyfer y Banc Bwyd lleol.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

### *Ebeneser, Dolgellau*

**OEDFA'R DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein hoedfa Ddiolchgarwch ar fore Sul 6 Hydref dan arweiniad y Parchedig Danni Worley. Roedd y capel yn edrych yn hardd iawn, a'r Parchedig Worley wedi gweithio'n galed i baratoi tabernacl ar gyfer y plant fel sydd i'w weld yn y llun, gyda stori a phecynnau crefft iddynt. Nesta ac Efin oedd wedi creu'r posteri hardd eto eleni. Mwynhaodd pawb roi diolch i Dduw gyda'n gilydd mewn gwasanaeth diddorol ac addysgiadol. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu at yr achlysur hapus hwn.



**COFION A DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn parhau i feddwl am ein haelodau sy'n methu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd ac yn anfon ein cofion atynt.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE



### *Ebeneser, Trefor, Môn*

**CROESO NÔL**
Braf yw cael croesawu Mrs Catherine Roberts yn ôl atom i'r capel wedi dros flwyddyn o absenoldeb. Bu Catherine yn wael ond yn dilyn triniaeth lwyddiannus mae hi wedi gwella'n dda ac yn falch o gael dod yn ôl i'r oedfaon. Bu Catherine yn ffyddlon iawn yn y gwasanaethau ers blynyddoedd. Pob bendith, Catherine.

**DATHLU**
Yn ystod yr haf dathlodd Arthur ac Ann Jones, dau sy'n ffyddlon iawn yma, eu Priodas Aur. Yma yn Ebeneser y priodwyd y ddau hanner can mlynedd yn ôl. Dymunwn flynyddoedd eto o iechyd a hapusrwydd i chi gyda'i gilydd, Arthur ac Ann.
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

### *Bethel, Prestatyn*

**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
Y plant a'r ieuenctid oedd yn gyfrifol eleni am ein Gwasanaeth Diolchgarwch a hyfryd oedd gwrando arnynt yn cymryd rhan a chanu emynau o ddiolch. Roedd pawb wrth ei fodd o weld Henry, 11 oed, yn cyfeilio ar yr organ i'r emyn gyntaf. Dangosodd y plant lleiaf eu lluniau o'r pethau roedd arnynt eisiau diolch amdanynt, yn rhieni, teulu, bwyd, cartref, anifeiliaid a ffrindiau. Gweddïwyd gan Alaw; canwyd deuawd gan Alys a Beth; cafwyd unawd Cello gan Flora a datganiad ar yr organ gan Arthur. Llawer o ddiolch i Ffion ac Angharad am baratoi'r plant ac i Angharad am gyfeilio.



**SUL Y COFIO**
Daeth y Parchedig Arglwydd Roger Roberts atom ar gyfer Sul y Cofio a chawsom neges afaelgar ganddo. Diolch iddo am ei wasanaeth ffyddlon dros flynyddoedd lawer. Bu Mrs Glenys Davies, un o'n haelodau hynaf, yn gosod torch ar Gofgolofn Galltmelyd lle mae enw ei hewyrth yn cael ei goffáu.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Ifan am ennill cystadleuaeth Coginio yr Urdd, CogUrdd, yn ei ysgol. Llongyfarchiadau cynnes i Arthur ar ei lwyddiant aruthrol yn ei arholiadau TGAU ac i Alaw ar ganlyniadau ardderchog yn yr arholiadau TGAU ym mlwyddyn 10.

**DYMUNO'N DDA**
Pob dymuniad da am wellhad buan i'n haelodau sydd mewn gwaeledd. Hoffem ddymuno Nadolig llawen i'n cyfeillion yma ac mewn eglwysi eraill, gan weddïo am flwyddyn newydd heddychlon a bendithiol i chwi i gyd.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

# O'R PEN YMA

***gan Angharad Tomos***



Un adnod fydd yn aros efo mi y Nadolig hwn yw'r un yn Mathew, Pennod 2, 12, sy'n sôn am y doethion,

*'Ac wedi eu rhybuddio hwy gan Dduw trwy freuddwyd, na ddychwelent at Herod, hwy a aethant drachefn i'w gwlad ar hyd ffordd arall.'*

Dydi hi ddim yn adnod gaiff sylw fel rheol, gan fod cymaint yn digwydd yn stori'r geni, ond dwi'n meddwl ei bod yn addas myfyrio arni ar drothwy blwyddyn newydd.

Ydych chi'n un sy'n gwneud addunedau amser Calan? Ydych chi wedi blino gwneud yr un addunedau, flwyddyn ar ôl blwyddyn? Os ydych chi, pam nad ewch chi ar hyd ffordd arall?

Un peth a wnawn yn aml yn ein heglwysi yw trafod sut i estyn allan at bobl, ac yr ydym yn diflasu trio yr un ffyrdd. Ddwy flynedd yn ôl, mi gafodd gŵr ifanc yn ein pentref syniad newydd.



"Beth am drefnu pryd cymunedol yn y Neuadd Goffa?" gofynnodd, gan ofyn i bobl roi eu hamser a'u harian yn wirfoddol. Cytunodd pawb, gan feddwl ei fod yn syniad clên. Ac yna ychwanegodd, "a beth am wneud hynny bob wythnos?" Edrych arno yn hurt wnaethon ni, ac ron i'n amau'r syniad yn fwy na neb. Ron i'n amau fyddai pobl yn rhoi eu hamser a'u harian i ddechrau, yna ron i'n amau pwy fyddai'n dod. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, dwi'n falch o ddweud i'm hamheuon fod yn rhai di-sail. Mae 'Llond Bol', y pryd cymunedol yn Neuadd Goffa Penygroes, wedi dod yn achlysur o bwys yng nghalendr y pentref. Mewn dwy flynedd, mae 3,567 o brydau wedi eu paratoi mewn 92 o sesiynau, gyda 1,612 o oriau gwirfoddol. Mae'r patrwm yn syml – bob pnawn Mercher, daw criw ynghyd i baratoi pryd dan un arweinydd - gosodir y byrddau i ryw 30 o bobl, gweinyddir y pryd (cinio a phwdin) am 5.30, ac o fewn awr, mae'r criw yn golchi'r llestri a chlirio'r neuadd. Mae bwced wrth y drws i bwy bynnag sydd eisiau cyfrannu. Dydi hyn ddim yn unigryw i Benygroes wrth gwrs, mae sawl cymuned yn trefnu 'sesiwn gawl' wythnosol.

Darparu lle cynnes a phryd cynnes o fwyd oedd wrth wraidd y cynllun, ond mae wedi datblygu yn rhywbeth mwy. Mae pawb yn edrych ymlaen at ddod at ein gilydd ar nos Fercher. Ydi, mae'r bwyd yn dda, ac mae'n arbed rhywun rhag gorfod coginio, ond hefyd mae yn esgus da i gymdeithasu. Anodd iawn yw eistedd dros ffordd i rywun a dweud dim!

Mae cyd-fwyta yn anogaeth i gymdeithasu. Daw pobl hŷn, sy'n ei gweld yn drafferthus coginio i un, daw teulu yno, i gael cymysgu efo plant eraill, daw pobl ifanc, sy'n gweld y pryd yn fargen, a daw ambell un dieithr heibio – dim ond i weld be sydd ar droed. Daeth yn achlysur cyfleus i gael sgwrs efo rhywun penodol - "Wela i di yn Llond Bol!" ac mae'r trefniant wedi ei wneud. I'r rhai sydd ddim yn hoffi cerdded, neu ddim yn gyrru, rydym yn cynnig lifft i'w nôl o garreg y drws.

Wn i ddim pam mae o'n gymaint o lwyddiant, ond dydi hi ddim yn anodd cael gwirfoddolwyr. Mae pobl yn gweld yr angen yn glir, ac yn cael hwyl yn dod ynghyd i goginio. Ond roedd angen i un person i gael y syniad yn y lle cyntaf, er mwyn sbarduno eraill. A'r hyn ddaru y person hwnnw oedd meiddio 'mynd ar hyd ffordd arall.'

# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

Hoffwn eich cyfarch ar Ŵyl y Geni gydag englyn y Parchedig Robert Williams a ganodd am y Nadolig –

Baban Duw i bawb yn dod, o'i breseb
I'r oesau yn syndod;
A'n gobaith ni yw gwybod
Mai Ef yw ein byw a'n bod.

## HEROD

Yng nghanol rhialtwch pob Nadolig y mae enw un gŵr, sef y creulonaf o'r hil ddynol, yn mynnu dod i'r wyneb. Bob tro y darllenir mewn gwasanaeth carolau o'r ail bennod yn Efengyl Mathew, cawn ein hatgoffa ohono. "Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod...". Mae'r geiriau'n gosod geni'r Iesu mewn lle ac amser, gan nodi enw'r sawl oedd yn teyrnasu ar wlad ei enedigaeth. Yn teyrnasu'n greulon.

Cofiaf fel ddoe, pan oeddwn yn gurad mewn plwyf, sut y bu i arolygwr yr Ysgol Sul holi un flwyddyn, ac yntau'n trefnu cast Drama'r Geni, pwy hoffai chwarae rhan Herod. Aeth dwylo dau fachgen i fyny'n syth ac meddai'r arolygwr yn garedig: "Mae un Herod yn hen ddigon!"

Y ffaith i'r Doethion ddod i Jerwsalem a holi ble roedd yr hwn a anwyd i fod yn frenin yr Iddewon a gythruddodd y Brenin Herod gyda chanlyniadau erchyll.

## TEYRNASIAD Y BRENIN CREULON

Cafodd Herod Fawr ei benodi gan y Rhufeiniaid yn frenin Jwdea yn y flwyddyn 37 CC. Cytuna haneswyr ei fod wedi cael teyrnasiad hynod lwyddiannus gan iddo ymestyn y diriogaeth yr oedd yn ei llywodraethu, o Balestina i rannau o'r Iorddonen, Lebanon a Syria. Yn y mannau hyn aeth ati i adeiladu amddiffynfeydd, sianelau dŵr ac amffitheatrau gan ennill y teitl "Herodes Magnus", Herod Fawr. Hefyd rhoes y Rhufeiniaid y teitl "Brenin yr Iddewon" iddo oherwydd y boblogaeth Iddewig yr oedd yn llywodraethu arni. Roedd yn falch o'r teitl hwn a gwnâi unrhyw beth i'w gadw.

Dywedir fod Herod mor ddrwgdybus fel y byddai hyd yn oed yn mynd o gwmpas dinas Jerwsalem fin nos wedi gwisgo fel dinesydd cyffredin er mwyn clywed beth a ddywedai ei bobl amdano. Roedd yn ddidostur a chreulon, ac yn orffwyll. Dywed yr hanesydd Josephus iddo lofruddio ei wraig Marianne a'i mam Alexandra, a'i feibion Antipater, Alexander ac Aristobul. Hyd yn oed ar ei wely angau trefnodd Herod fod pob dyn nodedig yn ninas Jerwsalem i'w casglu i'r theatr awyr agored a'u lladd pan fyddai ei farwolaeth ef ei hun yn cael ei chyhoeddi. Dyma'r dyn a glywodd gwestiwn y doethion - "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon?".

## Y PLANT BYCHAIN

Yng nghalendr yr Eglwys cedwir ar 28 Rhagfyr Ŵyl y Gwirioniaid neu Ŵyl y Diniweidiaid. "Die gŵyl y meibion gwirian" yw hen enw'r Llyfr Gweddi Cyffredin cyntaf (1567) ar yr ŵyl hon sy'n coffáu'r "plant bychain a rhai yn sugno". Gwyddom beth ddigwyddodd o ddarllen ail bennod Efengyl Mathew-"Yna pan ddeallodd Herod iddo gael ei dwyllo gan y sêr-ddewiniaid, aeth yn gynddeiriog, a rhoddodd orchymyn i ladd pob un o'r plant ym Methlehem a'r holl gyffiniau oedd yn ddwyflwydd oed neu lai".

Herod oedd yn llawn o fraw,
Wedi'r newydd rhyfedd;
Lladdodd ef ym Methlem draw
Y plant yn ei gynddaredd.

Llifai strydoedd Bethlehem, man geni yr Iesu â gwaed plant bach, gwaed merthyron. Er mwyn diogelu y baban Iesu, aeth Mair a Joseff i'r Aifft. Mae atsain yn y stori o hanes caethiwed yr Iddewon yn yr Aifft, pan ofnodd Pharo fod y boblogaeth Iddewig yno yn tyfu yn rhy niferus a gorchymyn y dylid lladd pob bachgen Iddewig ar ei enedigaeth.

Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl hon mae englyn arbennig Gerallt Lloyd Owen "Y Nadolig" yn mynnu dod i'm meddwl, yn arbennig ei linell olaf ysgytwol-

Wyf heddiw yn rhyfeddu – wyf ar daith
Hefo'r Doeth i'r beudy,
Wyf y sant tyneraf sy,
Ond wyf Herod yfory.



# Y Llais: Y Sain Hyfrytaf?

***gan Gareth Blainey***

"Of musical tones the most grateful to the ear are such as are produced by the vocal organ."

Dyna ddyfyniad o un o bedair cyfrol *The History of Music* (1776-1789) a ysgrifennwyd gan yr hanesydd, cerddor a chyfansoddwr uchel ei barch o Loegr, Charles Burney. Roedd Burney o'r farn mai sain y llais dynol ydy'r sain cerddorol hyfrytaf: tybed ydych chi'n cytuno ag ef?

Rydw i'n cytuno â Burney, er fy mod hefyd yn arbennig o hoff o seiniau piano ac organ. Bûm yn canu'r piano ers mwy na hanner can mlynedd, ar ôl imi ddechrau cael gwersi tra oeddwn yn Ysgol Gynradd Pant y Rhedyn yn Llanfairfechan. Yn Llanfairfechan hefyd, yng nghapel Bethel, y dechreuais i ganu'r organ yn f'arddegau. Fy nhad, y diweddar Erfyl Blainey, oedd gweinidog y capel yn y 1970au ac ar ôl i Dad symud wedyn i Gaernarfon i fod yn weinidog capel Ebeneser byddwn yn canu'r organ yno hefyd pan fyddwn gartref o'r coleg, yn ystod fy nghyfnod yn astudio Cerddoriaeth yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd.

Cefais foddhad mawr o ganu'r organ mewn sawl capel ac rwy'n dal i fwynhau mynd i eistedd wrth y piano yn y tŷ – ond fy hoff sain cerddorol ydy sain côr cymysg pedwar llais, soprano, alto, tenor a bas. Rwyf yn denor mewn dau gôr cymysg. Ers 1987 rwy'n aelod o Gôr Godre'r Garth, sy'n ymarfer yn Efail Isaf ychydig filltiroedd o'm cartref ym Mhontypridd, ac ymunais â Chôr Cwm Rhondda, sy'n ymarfer yn Nhreorci, ym mis Medi y llynedd. Ces i wefr wrth ganu yn y ddau gôr ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd eleni a daeth y corau at ei gilydd i ffurfio un côr – Côr Glan Rhondda – ar gyfer y Brifwyl. Roedd canu yn y côr hwnnw yn brofiad bythgofiadwy.

Byddaf yn mwynhau gwrando ar gorau cymysg hefyd. Union fis ar ôl i'r Eisteddfod Genedlaethol ddod i ben es i Neuadd Frenhinol Albert yn Llundain i un o gyngherddau'r "Proms" – cyngerdd gan un o gorau cymysg enwocaf y byd sef "The Sixteen". Roedd yn gyngerdd gwych ac roeddwn wrth fy modd yn gwrando ar eu perfformiad o'r *Three Motets* gan Syr Charles Villiers Stanford. Roedd hyn i nodi canmlwyddiant marwolaeth Stanford. Y tri yw "Justorum animae" (Mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw), "Coelos ascendit hodie" (Heddiw cododd Iesu Grist i'r nefoedd) a "Beati quorum via" (Gwyn fyd y rhai perffaith eu ffordd). Canais y tri motét hyn pan oeddwn yn aelod o Gôr Siambr Adran Gerdd Prifysgol Caerdydd.

# Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru

gan **Hywel Trewyn**




Sefydlwyd Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru yn 1882 gan grŵp bychan o wirfoddolwyr dan arweiniad Esgob Bangor, yn y gobaith o "ddysgu'r deillion i ddarllen er mwyn lleihau cymaint â bo modd ar undonedd eu bywydau oherwydd eu dallineb." Bryd hynny roedd 35 o ddeillion yng Nghaernarfon, a 45 ym Môn a Bangor. Yn yr un flwyddyn trawsysgrifiwyd y Salmau i Braille gan y Gymdeithas ar gost o £73.

Mae llawer o newidiadau wedi digwydd dros y 142 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas unigryw hon – yr unig un sy'n darparu cymorth i bobl sydd â nam golwg drwy'r iaith Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Bellach mae gan y Gymdeithas dîm ymroddedig o swyddogion sy'n gweithio gyda phobl ddall a rhannol ddall i gefnogi, annog a datblygu sgiliau gan wella diogelwch a hyrwyddo annibyniaeth, hyder a dewis.

Mae gennym bob mathau o offer technolegol electronig ar gael gan gynnwys oriawr, clociau, sbectolau a chwyddwyr arbennig ac offer gwylio teledu a dangosydd lefel hylif. Yn ogystal, fe gynhelir clybiau cymdeithasol misol ym Mae Colwyn a rhoddir cefnogaeth i bobl sydd â nam golwg ym Mhowys. Mae Clwb Cerdded Eryri yn trefnu teithiau misol i unrhyw un sydd â nam golwg, gyda gwirfoddolwyr cymwys i helpu fel tywyswyr.

Cred y Gymdeithas nad yw anabledd yn diffinio gallu. Enghraifft dda o hyn oedd pan gynhaliwyd sesiynau dringo i blant a phobl ifanc gyda nam golwg yng Nghanolfan Beacon, Caernarfon yn ddiweddar. Sesiwn arall oedd paentio murlun lliwgar ar un o waliau swyddfa'r Gymdeithas ym Mangor. Roedd hi'n wych gweld wynebau'r plant, yn gwenu wrth iddyn nhw wthio eu hunain i ymdrechu'n galed a hwyliog i gyflawni'r tasgau.



Mae gan y Gymdeithas hefyd ei stiwdio ei hun yn y ganolfan ym Mangor sy'n recordio llyfrau llafar Cymraeg a phapurau bro lleol hefyd. Mae gwasanaeth GWRANDO y Gymdeithas yn cyhoeddi 24 o lyfrau llafar bob blwyddyn – eu hanner ar gyfer oedolion a'r hanner arall ar gyfer plant. Yn ogystal, mae'n recordio a dosbarthu wyth papur bro clywedol ar CD neu MP3 yn fisol.

Rydym o hyd yn ceisio denu rhagor o ymddiriedolwyr i gefnogi gwaith yr elusen a gwirfoddolwyr i dywys a galluogi rhagor o ddeillion i fwynhau gweithgareddau. Mae arnom hefyd angen unigolion sy'n barod i roi rhywfaint o'u harbenigedd a'u hamser i arwain strategaeth a chyflawni cenhadaeth y sefydliad. Mae'r Gymdeithas yn gwbl ddibynnol ar garedigrwydd a rhoddion gan unigolion, ffrindiau a chefnogwyr er mwyn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau sy'n hanfodol i bobl sy'n colli eu golwg. Mae sawl ffordd i'n cefnogi gan gynnwys rhoddion uniongyrchol a digwyddiadau codi arian. Rydym yn hynod ddiolchgar o bob rhodd – yn fach neu'n fawr – i'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Os hoffech wybod mwy, ffoniwch Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru 01248 353604 neu e-bostio admin@nwsb.org.uk. Croeso cynnes i chi ddod i weld y ganolfan yn 325, Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YB.





# Craig safadwy mewn tymhestloedd

*gan Dr Huw Tegid*



"Dydi'r lle ddim yr hyn y bu o," meddai'r gyrrwr tacsi wrthyf ar ein ffordd at y gyrchfan. "Mae'r lle wedi mynd â'i ben iddo, braidd, ac mae'n well gan bobl fynd i lawr at lan y môr y dyddiau hyn". "Hm, hanes cyfarwydd sawl cyrchfan bererindota yng Nghymru!" meddwn innau wrthyf fy hun.

Draw i ynys Madeira, ychydig i'r gogledd o Tenerife a'r Ynysoedd Dedwydd, yr aethom ar ein gwyliau ddiwedd Awst. Ynys sy'n perthyn i Bortiwgal ydi hi, ac yn debyg iawn i fannau eraill lle bu Portiwgal yn llywodraethu, fel Angola, Dwyrain Timor, ac yn fwyaf enwog, Rio de Janeiro ym Mrasil, mae cerflun trawiadol o Iesu Grist â'i freichiau yn llydan agored wedi cael ei godi ar yr ynys hon. Bu fy ngwraig a minnau yn gweld y cerflun ar ein hymweliad cyntaf â Madeira yn 2003, rai blynyddoedd cyn i ni briodi a chael plant, felly roeddem yn awyddus i ailymweld â'r safle fel teulu yn ystod ein gwyliau yno eleni.

Codwyd y cerflun *Art Deco* hwn ym Madeira bedair blynedd cyn cerflun byd-enwog Crist y Gwaredwr yn Rio. Fe'i dyluniwyd gan yr artistiaid Georges Serraz a Pierre Charles Lenoir o Ffrainc ym 1927. Mae'n sefyll uwchlaw'r môr mewn llecyn creigiog a garw, a phlanhigion cactws ydi'r unig bethau sy'n tyfu o'i amgylch.

O ran disgrifiad y gyrrwr tacsi o ddirywiad y lle, cefais ar ddeall ar ôl cyrraedd yno bod y cerflun wedi cael ei ddifrodi mewn storm fellt a tharanau yn 2021, gan adael creithiau ar ben ac ar ddwylo'r cerflun concrit o Iesu. Wrth weld cyflwr a lleoliad y cerflun, gwibiodd fy meddwl o un ddelwedd drawiadol o fywyd Iesu i un arall. Drwy 'dderbyn' ergydion y mellt dair blynedd yn ôl yn lle trigolion y tai cyfagos, mae'n bur debyg bod ambell un wedi cael 'achubiaeth' – yn y byd hwn, yn ogystal â'r byd a ddaw, buasai rhywun yn gobeithio. Roedd gweld Crist yn sefyll yng nghanol tir diffaith yn peri i mi feddwl hefyd amdano yn yr anialwch (roedd deugain munud yn hen ddigon i ni ar brynhawn poeth a sych y diwrnod hwnnw!). Roedd ei weld o yno â'i freichiau ar led yn gwneud i mi feddwl tybed ai lle fel hyn oedd 'pen Calfaria' – Golgotha. Mae'r disgrifiad 'lle penglog' yn gwneud i rywun feddwl am le diffaith, yn tydi. Ac wrth feddwl am ehangder y môr oedd o flaen y cerflun, roedd y breichiau agored hynny fel pe baent yn cofleidio'r moroedd mawr a phopeth draw dros y gorwel – llawer mwy na'r hyn a welwn i â'm llygad fy hun.

Weithiau, byddwn yn digalonni wrth feddwl bod mannau â 'mieri lle bu mawredd' wedi cyrraedd y fath gyflwr, ac yn pendroni tybed faint o ysbrydoliaeth sydd mewn mannau o'r fath erbyn hyn, a hwythau'n llwm eu gwedd. Ond eto i gyd, pan alwodd Iesu Mathew i fod yn un o'i ddisgyblion, oni ddywedodd: "Nid ar y cryfion ond ar y cleifion y mae angen meddyg", ac oni chlywn ni amdano dro ar ôl tro yn y mannau hynny a oedd ymhell iawn o fod yn ysblennydd? Yn amlach na pheidio, mewn cartrefi gwylaidd – lle gellid torri'r to i ddod â phobl ato, er enghraifft – yr oedd Iesu. Ac wrth feddwl am elfennau allanol fel y mellt hynny a darodd y cerflun, a'i adael mewn cyflwr bregus, eto i gyd 'yma o hyd' y mae Crist. Onid ydi hynny'n cynnig ysbrydoliaeth i ni fod Iesu wedi gwrthsefyll pob math o ergydion dros y blynyddoedd, ei fod o'n dal i'w gwrthsefyll heddiw, ac y bydd o'n eu gwrthsefyll eto fyth yn y dyfodol? Er mor bell o Fôn oeddem ni ym Madeira, allwn i ddim peidio meddwl am ail bennill emyn enwog Morswyn, a ysbrydolwyd gan stormydd yn taro creigiau Porth Dafarch ar Ynys Cybi:

Pan fo creigiau'r byd yn rhwygo  
Yn rhyferthwy'r farn a ddaw,  
Stormydd creulon arna' i'n curo,  
Cedyrn fyrdd o'm cylch mewn braw;  
Craig yr Oesoedd ddeil pryd hynny,  
Yn y dyfroedd, yn y tân:  
Draw ar gefnfor tragwyddoldeb  
Craig yr Oesoedd fydd fy nghân.

# O Gwrando'n Awr
# Unwch â'r Gân o Gariad y Nadolig hwn

Mae'r Nadolig yn swnllyd, onid ydyw?
Cymaint o ddisgwyliadau. Cymaint o leisiau.

Mae gwahoddiad i chi yma wrth i ni Wrando'n Awr i ymuno â'r Gân o Gariad y Nadolig hwn

methodist.org.uk/HushTheNoise

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

MCHTNPWEL24 Yr Eglwys Fethodistaidd, elusen gofrestredig rhif 1132208 © Yr Ymddiriedolwyr at Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2024